



O dan embargo tan 10AM Ddydd Llun 14 Chwefror 2022

CYHOEDDI ENILLWYR GWOBRAU HEARTS FOR THE ARTS 2022

- Gwobrau blynyddol sy'n cynrychioli arwyr celfyddydau tawel awdurdodau lleol y DU, wedi'u cyflwyno gan Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau mewn partneriaeth â [Community Leisure UK](#), [Creative Lives](#), y [Gymdeithas Llywodraeth Leol](#), [Thrive](#), [UK Theatre](#), a [Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#).
- Mae'r gwobrau wedi'u dyfarnu gan weithwyr proffesiynol uchel eu proffil ym meysydd y celfyddydau, busnes a newyddiaduriaeth: Andy Dawson; Krishnan Guru-Murthy; Kadiatu Kanneh-Mason; Shaparak Khorsandi; Anna Lapwood; Deborah Meaden; Jack Thorne; ac ymddiriedolwr ymgyrch genedlaethol y celfyddydau Samuel West.
- Mae prosiect barddoniaeth gymunedol cyhoeddus, ymgyrch sy'n defnyddio celf a diwylliant i ddod â phobl yn ôl i Ganol y Ddinas, a phrosiect sy'n annog cysylltiadau rhwng y cenedlaethau i gyd wedi'u cydnabod yn y gwobrau eleni.
- Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno gan Samuel West a beirniaid gwadd arbennig yn seremoni wobrwyo ddigidol Hearts for the Arts sydd i'w chynnal gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar ddydd Llun 7 Mawrth.

Mae'r enillwyr wedi'u cyhoeddi ar gyfer **Gwobrau Hearts for the Arts 2022 Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau** (NCA). Mae'r gwobrau'n dathlu arwyr tawel Awdurdodau Lleol sy'n eirioli dros y celfyddydau er gwaethaf pob anfantais.

Derbyniwyd enwebiadau o bob cwr o'r DU ym mhob un o dri chategori'r gwobrau: Prosiect Celfyddydau Gorau; Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau – Gweithiwr Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol; Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau – Cynghorydd

Dewiswyd pum enillydd y gwobrau o restr fer o 20 o brosiectau ac eiriolwyr gan banel dyfarnu o weithwyr proffesiynol uchel eu proffil yn y celfyddydau, busnes a newyddiaduriaeth fel a ganlyn:

Andy Dawson – Inspire Youth Arts, enillydd gwobr Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau – Gweithiwr Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol HFTA 2021

Krishnan Guru-Murthy - newyddiadurwr a chyflwynydd Channel 4 News

Kadiatu Kanneh-Mason, awdur, siaradwr a chefnogwr addysg gerddoriaeth

Shaparak Khorsandi, digrifwraig ar ei thraed, awdur, person hyfryd yn gyffredinol

Anna Lapwood - organydd, arweinydd a darlledwr

Deborah Meaden - gwraig fusnes ac un o'r 'Dreigiau' ar y teledu

Jack Thorne - sgriptiwr ffilmiau a dramodydd

Samuel West, awdur a chyfarwyddwr, Ymddiriedolwr NCA

A'r enillwyr yw:

- **Prosiect Celfyddydau Gorau: Of Earth & Sky (Cyngor Gogledd Swydd Lincoln)**. Cyflwyniad *Of Earth & Sky* gan Luke Jerram i ddathlu pen-blwydd 20-21 Canolfan y Celfyddydau

Gweledol, llwybr celf weledol ar raddfa fawr a adeiladwyd o farddoniaeth a ysgrifennwyd gan drigolion Scunthorpe.

- **Prosiect Celfyddydau Gorau: Intergenerational Connections Project – Cyngor Ardal Mole Valley a Chyngor Swydd Surrey).** Prosiect aml-bartner sy'n cynnwys cyngorau Ardal a Sir, y GIG a Rhwydweithiau Gofal Sylfaenol, gan ddefnyddio cerddoriaeth i dyfu cysylltiadau rhwng pobl ifanc sy'n agored i niwed ac aelodau hŷn o'r gymuned leol.
- **Prosiect Celfyddydau Gorau: Westminster Reveals (Cyngor Dinas Westminster).** Ymgyrch ddiwylliannol drosgynnol a ddatblygwyd gan Gyngor Dinas Westminster mewn ymateb i'r pandemig, a geisiodd gefnogi'r sector diwylliannol a denu nifer yr ymwelwyr yn ôl i Westminster drwy guradu rhaglen o ymyriadau celf hygyrch mewn mannau cyhoeddus awyr agored, ac mewn siopau gwag.
- **Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau – Gweithiwr Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol: Zerritha Brown (Bwrdeistref Brent, Llundain).** Mae Rheolwr Etifeddiaeth 2020 Brent, Zerritha Brown, wedi bod wrthi'n hyrwyddo diwylliant yn Brent ac yn y Cyngor ers dros ddegawd ar ôl arwain ar raglen Olympiad Diwylliannol Brent.
- **Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau – Cynghorydd: Y Cynghorydd Ffion Meleri Gwyn (Cyngor Tref Criccieth).** A hithau'n artist ac yn athrawes, mae'r Cynghorydd Gwyn wedi mynd ati i greu celf i Griccieth, gan oruchwylio nifer fawr o brosiectau ar gyfer y gymuned leol.

Meddai **Samuel West**, actor, cyfarwyddwr ac ymddiriedolwr Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau: *“Mae'r pandemig wedi ein dysgu bod ein hanghenion, yn y pen draw, yn syml. Mae angen rhywbeth arnom i'w fwyta. Mae angen rhywle arnom i gysgu. Ac mae angen pethau rhad a diddorol i'w gwneud i'n hatal rhag colli ein meddyliau.*

“Mae celf wedi profi ei gwerth drwy gydol y cyfnod clo – mae cerddoriaeth, llyfrau, dramâu ar y teledu, gemau fideo, i gyd wedi rhoi hwb achubyddol i'n hiechyd meddwl a chorfforol. Yr hyn sy'n anoddach mewn pandemig yw teimlo'n rhan o gymuned. Mae lleoliadau gofal wedi dioddef. Mae mannau cyhoeddus wedi'u gadael yn wag. Bu epidemig yn ei rinwedd ei hun o unigrwydd ac arwahanrwydd.

“Dyna pam rydyn ni'n cefnogi'r bobl a'r prosiectau sy'n cael eu dathlu gan Hearts for the Arts. Rydym mewn cyfnod anodd ac mae arian yn dynn - weithiau mae'r weithred syml o greu unrhyw beth yn teimlo fel rheswm dros gael parti. Ond rydym am daflu'r sbotolau ar arwyr y celfyddydau sy'n mynd yr ail filltir ac yn rhoi'r hwrê o anogaeth sydd ei hangen ar awdurdodau lleol, artistiaid a sefydliadau celfyddydol er mwyn iddynt barhau.

“Mae uwchbŵer gan gelf: dod â phobl at ei gilydd; helpu pobl i deimlo'n ddynol. Oherwydd yn awr, yn fwy nag erioed, does dim nhw a ni. Ni yw'r cyfan.”

Meddai'r **Cynghorydd Gerald Vernon-Jackson**, Cadeirydd Bwrdd Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon y Gymdeithas Llywodraeth Leol:

“Ni fu darpariaeth gelfyddydol a diwylliannol leol erioed yn bwysicach nag yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gwasanaethau diwylliannol cyngorau ac ymddiriedolaethau wedi tyrru i fod yn gefn i bobl yn ystod y pandemig, gan estyn allan at y rhai mwyaf arunig, darparu cymorth addysgol a chynnig enydau o lawenydd i'w cymunedau yn ystod cyfnod anodd ac o dan amodau heriol.

“Cyngorau yw'r buddsoddwr cyhoeddus mwyaf mewn diwylliant o hyd, gan wario dros £1bn y flwyddyn yn Lloegr yn unig a bydd y gwasanaethau hyn yn hanfodol i gefnogi ein hadferiad cenedlaethol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n deillio o COVID-19.

“Mae'n bleser gennym fedru dathlu rhai o'r cyflawniadau hyn gyda'r Gwobrau Hearts for the Arts. Mae'r unigolion a'r timau ar y rhestr fer yn ysbrydoliaeth i bob un ohonom ac yn ein hatgoffa o bwysigrwydd gwasanaethau diwylliannol a ariennir yn lleol o ran cynnwys pobl mewn creadigrwydd a chyflawni amcanion ehangach o ran codi'r gwastad. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr.”

Cynhelir seremoni Gwobrau Hearts for the Arts y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn rithwir ddydd Llun 7 Mawrth.

Mae Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau'n cyflwyno'r Gwobrau Hearts for the Arts bob blwyddyn. Cyflwynir y gwobrau mewn partneriaeth â [Community Leisure UK](#), [Creative Lives](#), y [Gymdeithas Llywodraeth Leol](#), [Thrive](#), [UK Theatre](#), a [Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#).

I gael mwy o wybodaeth am yr enwebeion ar y rhestr fer ewch i:

<https://forthearts.org.uk/hearts-for-the-arts-2022-shortlist-announced/>

Nodiadau i olygyddion:

Mae **Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau** (NCA) yn elusen ac yn sefydliad ymgyrchu annibynnol, a redir gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol. Maent yn ymgyrchu dros fwy o fuddsoddiad yn y celfyddydau, i wella bywydau pawb; ac yn hyrwyddo'r rhai sy'n gwneud i hynny ddigwydd. forthearts.org.uk

Y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yw llais cenedlaethol llywodraeth leol. Mae'n sefydliad aelodaeth trawsbleidiol a arweinir yn wleidyddol, sy'n cynrychioli cynghorau o Gymru a Lloegr. Mae adroddiad yr LGA '[Leisure Under Lockdown](#)' yn darparu astudiaethau achos pellach ar sut mae gwasanaethau diwylliant a hamdden wedi cefnogi cymunedau yn ystod COVID-19. I gael rhagor o enghreifftiau o arloesedd mewn gwasanaethau a sefydliadau diwylliannol, ewch i [Hyb Diwylliant](#) LGA/Cyngor Celfyddydau Lloegr.

National Campaign
FOR THE ARTS

In Partnership with:



-Diwedd-